



Llyfryn Arholiad - Blwyddyn 7

Year 7 - Exam booklet

YSGOL UWCHRADD CAEREINION
HIGH SCHOOL

ABCh Blwyddyn 7 / Year 7 PSE

Year 7 Team
Tim Blwyddyn 7

MAE'R LLYFRYN HWN YN SÔN AM ARHOLIADAU .

Mae'n ganllaw ar gyfer cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 ar gyfer paratoi i wneud arholiadau pwysig yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn yr Ysgol Uwchradd.

Pam fod rhaid i chi wneud arholiadau?

1. Mae athrawon eisiau gwybod pa mor dda ydych chi'n gallu gwneud heb help gan unrhyw un arall.
2. Byddwch chi a'ch rhieni yn gweld sut yr ydych yn dod yn eich blaen.
3. Pan fyddwch yn hŷn byddwch yn eistedd arholiadau TGAU, UG/U pwysig ac mae angen i chi wybod beth rydym yn ddisgwyl gennych.
4. Bydd hyn yn eich rhoi chi mewn arfer da ar gyfer adolygu ac edrych dros unrhyw waith yr ydych wedi ei gynhyrchu.




Pryd mae'r arholiadau?

Mae arholiadau Blwyddyn 7 ym mis Mawrth

Byddwch yn cael amserlen ar gyfer eich arholiadau sy'n dangos pa ddiwrnod a pha amser mae eich arholiadau

Pa mor hir yw arholiad?



Mae rhai arholiadau yn hirach nag eraill. Mae'n dibynnu ar y pwnc a'r math o gwestiynnau y gofynnir i chi.

Bydd y wybodaeth yma ar eich amserlen pan fyddwch yn ei derbyn.

Cofiwch

"Tens of thousands of people never find out where their talent is. Where else are they going to find out but at school?" Terry Pratchett, Author

"Education can open doors and the more doors open to you the more chance you have in life". Sharon Davies, Olympic Silver medallist and television 'Ice Dancer'

"My advice is to get a good education and then keep on learning - acquire new interests and skills throughout your life". Bill Gates, world's richest man

YDYCH CHI'N BAROD?

Dyma ychydig o bethau y dylech chi wybod cyn yr arholiadau:

- Gwnewch yn siŵr fod eich nodiadau a'ch gwaith yn gyfoes
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pryd a lle mae pob un o'ch arholiadau yn cymryd lle
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu ac yn paratoi yn drylwyr
- Gwnewch yn siŵr fod yr offer cywir gennych
- Gwnewch yn siŵr nad ydych yn mynd i banic
- Cofiwch y Tri C '**Cool, Calm, Collected**'
- Ewch i'r toiled cyn yr arholiad

Ar gyfer eich arholiadau byddwch angen :

- Pen (ac un sbâr)
- Pensil (ac un sbâr)
- Pren mesur
- Rwber
- Miniwr
- Cyfrifiannell (Mathemateg)
- Cwmpawd (Mathemateg)
- Onglydd (Mathemateg)

Mae'n bwysig eich bod yn gofyn i'ch athrawon pa offer ychwanegol y byddwch angen ar gyfer eich arholiadau.



Mae'n syniad da dod a'ch offer mewn bag plastig clir/câs pensiliau clir.

Pam ?

Pan fyddwch yn eistedd arholiadau TGAU ym Mlwyddyn 11 mae hyn yn ofynnol. Mae'n profi nad ydych yn cuddio unrhyw nodiadau cudd/atebion y gallwch edrych arnynt yn ystod yr arholiad.

Dylech gadw eich bag heb ei agor o dan y ddesg yn ystod yr arholiad. Gallai hyn gael ei weld fel twyllo - cyfle i wirio nodiadau yr ydych wedi cuddio neu edrych ar eich llyfrau gwaith.

Gall cael eich cyhuddo o dwyllo olygu eich bod yn cael 0 a/neu cosb gan yr athro pwnc neu'r Pennaeth Blwyddyn.

Beth sy'n digwydd ar ddiwrnod yr arholiad?

1. Bydd yr arholiadau yn cymryd lle yn y neuadd, heblaw bod rhywun yn dweud rhywbeth gwahanol wrthyh chi. Bydd eich tiwtoriaid dosbarth yn mynd a chi i'r neuadd ar gyfer yr arholiadau yn y bore.
2. Cofiwch fynd a'r offer cywir efo chi ar gyfer yr arholiad. Dylai popeth arall gael ei gadw yn eich bag.
3. Dylech fynd i mewn i'r neuadd arholiad mewn tawelwch a pheidio cyfathrebu gydag unrhyw ddisgyblion eraill mewn unrhyw ffordd yn y neuadd.
4. Bydd y papurau arholiad yn cael eu dosbarthu gan aelodau o staff sy'n arolygu'r arholiad.
5. Bydd yr athro yn rhoi y cyfarwyddiadau i chi. Nid ydych i ddechrau'r arholiad nes y cewch chi orchymyn i wneud hynny.
6. Bydd yr athro yn ysgrifennu amser dechrau ac amser gorffen yr arholiad ar y bwrdd ym mlaen y neuadd fel eich bod yn gwybod faint o amser sydd gennych ar gyfer yr arholiad. Mae cloc yn y neuadd fel eich bod yn gallu gwirio faint o amser sydd gennych.
7. Byddwch yn derbyn rhybudd 5 munud cyn i'r arholiad orffen. Mae hyn yn caniatáu amser i chi gwblhau unrhyw gwestiynau nad ydych wedi ateb neu i ddarllen dros eich atebion er mwyn sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ei angen.
8. Dylech sicrhau fod eich enw ac unrhyw wybodaeth arall wedi ei ysgrifennu ar y papur.
9. Bydd yr athrawon yn casglu'r papurau. Bydd yn rhaid i chi eistedd yn dawel tra mae hyn yn digwydd.
10. Ar ôl i'r arholiad orffen ac mae'r holl papurau wedi eu casglu, gofynnir i chi adael y neuadd arholiadau. Ni chaniateir i chi siarad hyd nes eich bod y tu allan i'r neuadd arholiadau.



O NA !

Beth os ydw i eisiau gofyn cwestiwn?

Dylech roi eich llaw i fyny a bydd yr athro yn dod atoch. Gofynnwch eich cwestiwn yn dawel fel nad ydych yn amharu ar unrhyw un arall. Cofiwch, nid yw'r athro yn cael eich helpu i ateb y cwestiwn.

Beth os ydw i'n cwmpo rhywbeth?

Os ydych chi'n cwmpo rhywbeth ar y llawr - er enghraifft pensil - peidiwch ymdrechu i'w godi i fyny. Dylech roi ei llaw i fyny ac fe ddaw yr athro i'w godi i chi.

Beth os ydwi eisiau darn newydd o bapur?

Dylech roi eich llaw i fyny a bydd yr athro yn dod ag ef i chi. Cofiwch ysgrifennu eich enw ar dop pob darn o bapur yr ydych yn ei ddefnyddio.

Beth os ydw i'n gorffen yn gynnar?

Nid ydych yn cael gadael yr ystafell arholiad. Mae'n rhaid i chi eistedd yn dawel heb gymryd sylw eraill o'ch amgylch. Defnyddiwch yr amser i wirio eich gwaith yn ofalus ac i ychwanegu ato os ydych chi'n gallu.

Beth os ydw i ddim yn gorffen?

Dylech drïo cynllunio eich amser fel eich bod yn cwblhau yr arholiad. Os nad ydych wedi gorffen, nid ydych yn cael amser ychwanegol.

Beth os ydw i'n gwneud camgymeriad?

Rhowch linell daclus drwy'r camgymeriad ac ysgrifennu y cywiriad. Bydd hyn yn helpu eich athro i adnabod yr ateb yr ydych chi eisiau iddyn nhw farcio.



NID ydych i gyfathrebu mewn unrhyw fordd â disgybl arall.

Cofiwch **NID** ydych yn cael siarad yn yr ystafell arholiad.


Sut i adolygu?

Gan mai rhain yw eich arholiadau 'swyddogol' cyntaf yn yr Ysgol Uwchradd, bydd rhai ohonoch ddim yn gwybod sut i adolygu. Mae hyn yn normal, serch hynny mae yna sawl peth y gallech wneud ac y dylech gofio.

- ✓ Mae astudio yn rhywbeth yr ydych yn ei wneud o'r diwrnod cyntaf yn yr ysgol. Mae'n rhaid i chi adolygu eich gwaith yn gyson.
- ✓ Os ydych yn gadael yr adolygu tan ychydig ddyddiau cyn yr arholiad bydd hi'n rhy hwyr i ddysgu'r gwaith i gyd. Bydd hyn yn gwneud i chi boeni, a fydd yn ei dro yn gwneud chi'n nerfus a fydd o ganlyniad yn effeithio ar effeithiolrwydd eich adolygu.
- ✓ Gwnech gynllun wythnosol a dyddiol ar gyfer adolygu - ond cofiwch fod yn realistig ynglyn â'r hyn rydych chi'n gallu gwneud:
 - Y cyngor yw mai ychydig yn aml yw'r ffordd orau o adolygu, gan fod eich lefelau canolbwyntio yn disgyn ar ôl hanner awr.
- ✓ Penderfynwch beth sy'n bwysig a gwnewch rheini yn gyntaf, er enghraifft, pa bynciau ydych chi'n eu cael yn anodd? Dyma'r pynciau y dylech chi dreulio mwy o amser arnynt, felly mae'n well dechrau ar rheini yn gyntaf.
- ✓ Ticiwch yr eitemau/sesiynau adolygu ar ôl i chi eu cwblhau. Bydd hyn yn rhoi teimlad o gyflawniad i chi.
- ✓ Defnyddiwch liwiau a symbolau i ddangos y gwahanol weithgareddau a phynciau y byddwch yn eu hadolygu. Dylai hyn ddim cymryd llawer o amser i'w greu.
- ✓ Cofiwch bydd gennych fwy o amser i adolygu ar benwythnosau.

Defnyddiwch gopi o'r amserlen yn y llyfryn hwn er mwyn helpu chi i greu amserlen adolygu drafft cyntaf. Mae o fyny i chi:

- benderfynu pryd rydych chi'n dechrau adolygu (yn syth ar ôl cyrraedd adre, ar ôl cael rhywbeth i fwyta ayyb)
- ddewis y pynciau sy'n myndi i'r gwahanol focus. Peidiwch osgoi adolygu pwnc oherwydd nad ydych yn ei fwynhau!
- benderfynu faint o amser rydych chi'n dreulio ar bob sesiwn adolygu.



Pynciau yr ydw
i'n hyderus
ynddynt a'r
rhesymau pam



Pynciau nad wyf
yn hyderus
ynddynt a'r
rhesymau pam



VAK?

(Visual, auditory or kinesthetic / Gweledol, clywedol, cinesthetig)?

Mae'n ffaith fod pawb yn dysgu mewn ffordd wahanol ac mae hynny'n yn wir efo adolygu. Mae gennym i gyd ein hoff ffordd o ddysgu, mae hynny'n golygu ein bod naill ai'n:

- a) ddysgwr **gweledol** - Mae'n well gan rhywun sydd a ffordd **weledol** o ddysgu weld ac arsylwi pethau, gan gynnwys lluniau, diagramau, arddangos, taflenni, ffilmiau, siartiau fflip ayyb. Bydd y bobl yma yn defnyddio brawddegau (ymadroddion) fel 'dangos i fi', 'gad imi weld hwnna'. Bydd rhain yn gallu perfformio tasg newydd ar ôl darllen cyfarwyddiadau neu gwylio rhywun arall yn gwneud o gyntaf. Dyma'r bobl fydd yn gweithio o restrau a chyfarwyddiadau ysgrifenedig.
- b) Dysgwr **clywedol**- Mae'n well gan rhywun sydd a ffordd glywedol o ddysgu gofio gwybodaeth drwy wrando ; fo ei hun neu eraill yn siarad neu gwneud synnau. Bydd y bobl yma yn defnyddio brawddegau fel 'dyweda' wrthyf i', 'gad inni drafod o'. Bydd rhain yn gallu perfformio tasg newydd yn well ar ôl gwrando ar y cyfarwyddiadau gan arbenigydd. Mae'r bobl yma yn hapusach pan mae rhywun yn dweud y cyfarwyddiadau wrthynt dros y ffôn, ac yn gallu cofio geiriau i ganeuon y maent wedi clywed !
- c) Dysgwr **cinestherig/kinestheric** - 'Mae'n well gan ddysgwr cinestherig brofiad ffisegol - cyffwrdd, teimlo, dal, gwneud, profiadau ymarferol. Bydd y bobl yma yn defnyddio brawddegau fel 'Gadewch imi drïo', 'Sut ydych chi'n teimlo?'. Bydd rhain yn gallu perfformio tasg newydd yn well drwy geisio a dysgu wrth fynd yn eu blaen. Mae'r bobl yma yn hoffi arbrofi a gwneud ond byth yn edrych ar y cyfarwyddiadau yn gyntaf !

Efallai y bydd gennych ryw syniad eisoes ynghylch pa fath o ddysgwr 'ydych chi o'r disgrifiadau uchod. Bydd gwybod yn union pa fath o ddysgwr ydych chi yn gallu eich helpu gyda'ch adolygu ar gyfer arholiadau.

Cwblhewch yr holiadur canlynol i ddarganfod pa arddull dysgu sydd orau i chi.

Yn gyffredinol, mae gan bobl hoff arddull ddysgu, ond bydd hyn yn rhan o gymysgedd o'r tri. Mae gan rai pobl ddewis cryf iawn; ond mae gan bobl eraill gymysgedd o ddau arddull, neu yn llai cyffredin cymysgedd o'r tri.

Pan fydd di'n gwybod beth yw dy hoff arddull(iau) dysgu, byddi di'n gwybod pa arddull sy'n gweithio oriau i ti.

Rhowch gylch o amgylch yr ateb sy'n cyfateb yn agosaf at sut yr ydych chi'n ymddwyn yn gyffredinol.

1. When I use new technology I generally:

- a) read the instructions first
- b) listen to an explanation from someone who has used it before
- c) go ahead and have a go, I can figure it out as I use it

2. When I need directions to somewhere I usually:

- a) look at a map
- b) ask for spoken directions
- c) follow my nose and maybe use a compass

3. If I were to cook a meal, I like to:

- a) follow a written recipe
- b) call a friend for an explanation
- c) follow my instincts, testing as I cook

4. If I am teaching someone something new, I tend to:

- a) write instructions down for them
- b) give a verbal explanation
- c) demonstrate first and then let them have a go

5. I tend to say:

- a) watch how I do it
- b) listen to me explain
- c) you have a go

6. During my free time I most enjoy:

- a) going to museums and galleries
- b) listening to music and talking to my friends
- c) playing sport or doing DIY

- 7. When I go shopping for clothes, I tend to:**
- a) imagine what they would look like on
 - b) discuss them with the shop staff
 - c) try them on and test them out
- 8. If I were to choose a holiday I usually:**
- a) read lots of brochures
 - b) listen to recommendations from friends
 - c) imagine what it would be like to be there
- 9. If I were to buy a new car, I would:**
- a) read reviews in newspapers and magazines
 - b) discuss what I need with my friends
 - c) test-drive lots of different types
- 10. When I am learning a new skill, I am most comfortable:**
- a) watching what the teacher is doing
 - b) talking through with the teacher exactly what I am supposed to do
 - c) give it a try myself and work it out as I go
- 11. If I am choosing food off a menu, I tend to:**
- a) imagine what the food will look like
 - b) talk through the options in my head or with my partner
 - c) imagine what the food will taste like
- 12. When I listen to a band, I can't help:**
- a) watching the band members and other people in the audience
 - b) listening to the lyrics and the beats
 - c) moving in time with the music

13. When I concentrate, I most often:

- a) focus on the words or pictures in front of me
- b) discuss the problem and the possible solutions in my head
- c) move around a lot, fiddle with pens and pencils and touch things

14. My first memory is of:

- a) looking at something
- b) being spoken to
- c) doing something

15. When I am nervous, I:

- a) visualise the worst-case scenarios
- b) talk over in my head what worries me most
- c) can't sit still, fiddle and move around constantly

16. I feel especially connected to other people because of:

- a) how they look
- b) what they say to me
- c) how they make me feel

17. If I am explaining to someone I tend to:

- a) show them what I mean
- b) explain to them in different ways until they understand
- c) encourage them to try and talk them through my ideas as they do it

18. I really love:

- a) watching films, photography, looking at art or people watching
- b) listening to music, the radio or talking to friends
- c) taking part in sporting activities, eating fine foods and wines and dancing

19. Most of my free time is spent:

- a) watching television
- b) talking to friends
- c) doing a physical activity or making things

20. When I meet someone new, I usually:

- a) arrange a face to face meeting
- b) talk to them on the telephone
- c) try to get together while doing something else, such as an activity or a meal

21. I first notice how people:

- a) look and dress
- b) sound and speak
- c) stand and move

22. If I am angry, I tend to:

- a) keep replaying in my mind what it is that has upset me
- b) raise my voice and tell people how I feel
- c) stamp about, slam doors and physically demonstrate my anger

23. I find it easiest to remember:

- a) faces
- b) names
- c) things I have done

24. I think you can tell if someone is lying if:

- a) they avoid looking at you
- b) their voice changes
- c) they give me funny vibes

25. When I meet someone I knew from school I:

- a) I say "It's great to see you!"
- b) I say "It's great to hear from you!"
- c) I give them a hug or a handshake

26. I remember things best by:

- a) writing notes or keeping printed details
- b) saying them aloud or repeating words and key points in my head
- c) doing or practising the activity or imagining it being done

Now add up how many A's, B's and C's you selected.

A's =

B's =

C's =

If you chose mostly A's you have a **VISUAL** learning style

If you chose mostly B's you have an **AUDITORY** learning style

If you chose mostly C's you have a **KINAESTHETIC** learning style

I am a _____ learner.

Share your learning style with the class.

Sut ydw i'n adolygu efo fy arddull ddysgu?

Gallwch ddefnyddio'ch arddull ddysgu i benderfynu sut yr hoffech chi adolygu. Nid yw hyn bob amser yn 100% cywir ac efallai y bydd rhai awgrymiadau yn gweithio i rai pobl. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod chi'n trio rhai ohonynt. Mae pawb yn wahanol ac rydym i gyd yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol.

Gweledol:

Defnyddiwch nodiadau post a'u glynu ar y wal

Crynowch nodiadau

Goleubwyntio neu rhoi cylch o amgylch gwybodaeth bwysig

Defnyddio system goleuadau traffig i nodi cynnydd mewn dysgu a phwyntiau gweithredu

Lluniwch ddiagramau, lluniau, mapiau meddwl, collage

Geiriau allweddol wedi'u harddangos o gwmpas yr ystafell



Clywedol:

Cyfansoddwm rigymau

Creu podlediad a gwrando

Profwch eich hun neu'ch ffrindiau

Byddwch yn athro - dysgu rhywun arall rhywbeth rydych chi wedi ei adolygu

Rapiau, rhigymau, siantiau a phennill, darlleniadau dramatig
Cerddoriaeth ar gyfer egni, ymlacio yn weledol ac yn adolygu

Cinesthetig/Kinesthetic:

Gwnewch eich PowerPoint eich hun


Creu eich cardiau adolygu eich hun

Camu o amgylch yr ystafell tra'n adolygu nodiadau

Chwarae gêm adolygu ar BBC Bitesize

Dylunio ac adeiladu gweithgareddau

Ystumiau neu symudiadau i ddangos cysyniad




Sut i adolygu? (parhad)

- Mae'n haws dechrau adolygu os ydych chi'n drefnus.
- Nid darllen ac ail-ddarllen nodiadau yw'r ffordd orau o ddysgu - mae'n rhaid i chi wneud ymdrech ymwybodol i ddysgu yr hyn rydych yn ei ddarllen. Mae hyn yn golygu gwneud nodiadau a defnyddio strategaethau i'ch helpu i ganolbwyntio ar y pwnc, i ddeall y ffeithiau pwysig ac i'w cofio.
- Mae pobl yn dyfeisio llawer o wahanol strategaethau i'w helpu i ddysgu - nodir rhai ohonynt isod.



Mewn paru - edrychwch ar y strategaethau isod a thrafodwch gyda'ch partner.

Ceisiwch feddwl am strategaethau eraill y gallech ddefnyddio a rhestrwch y rhai yr hoffech eu defnyddio i weld os ydynt yn gweithio.



'Rwy'n gwneud siartiau mawr (mapiau meddwl) ar dudalen o bapur. Mae hyn yn golygu bod gennyf yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnaf ar unwaith. Rwy'n rhoi'r siart ar wal fy llofft neu rhywle yn y tŷ fel fy mod yn ei basio bob dydd.'

Rwy'n defnyddio "edrych a gorchuddio": Rwy'n darllen neu'n ceisio dysgu rhywbeth; yna rwy'n gorchuddio'r dudalen. Rwy'n ysgrifennu i lawyr hyn y gallaf ei gofio. Yna, rwy'n edrych yn ôl i weld beth rydw i wedi ei gael yn iawn. Yna rwy'n trio eto.



Dechrau adolygu.

Nawr eich bod wedi creu amserlen ac wedi meddwl am rai strategaethau y gallwch eu defnyddio i adolygu, mae'n bwysig meddwl lle ydi'r lle gorau i adolygu.

Efallai fod hyn yn ymddangos yn wirion, ond gall y lle rydych yn dewis adolygu wneud byd o wahaniaeth i'ch lefelau canolbwyntio.

Cyngor ar gyfer creu yr amgylchedd iawn ar gyfer adolygu:

- ✓ Ystafell dawel gyda digon o le (llofft, swyddfa ac yn y blaen)
- ✓ Teledu wedi ei ddiffodd/ffonau symudol wedi eu diffodd a'u gadael mewn ystafell arall er mwyn osgoi tynnu eich sylw.
- ✓ Ceisiwch drefnu nad oes neb yn tarfu arnoch.
- ✓ Y ffordd orau o adolygu ydy 'ychydig yn aml', gan fod eich lefelau canolbwyntio yn disgyn ar ôl hanner awr..
- ✓ Meddylwch am yr hyn sydd angen ei wneud a sut i'w wneud
- ✓ Gwnewch yr hyn yr ydych wedi ei gynllunio.
- ✓ Profwch eich hun - Ydych chi'n deall y prif bwyntiau?
- ✓ Rhwch wobwr i chi eich hun am weithio. Mae cael snac, diod a 10 munud o egwyl rhwng adolygu pynciau yn bwysig iawn.

Bydd angen:

- ✓ Papur sgrap
- ✓ Pen neu phensil
- ✓ Eich llyfrau ar gyfer pob pwnc
- ✓ Amserlen adolygu
- ✓ A list of the topics that need to be revised.



Sgiliau canolbwyntio da:

- Bydd cael darn o bapur wrth law yn ddefnyddiol ar gyfer ysgrifennu unrhyw nodiadau neu syniadau a ddaw i'ch meddwl wrth astudio (a fydd o help wrth adolygu).
- Gosodwch nodau astudio cyn i chi ddechrau pob sesiwn adolygu. Torri'r cynnwys (yr hyn rydych chi'n ei astudio). Dyma lle mae'r amserlen adolygu yn ddefnyddiol. Peidiwch â chadw at yr un pwnc drwy'r nos.
- Gwnech yn fawr o unrhyw egwyl yr ydych wedi rhoi i chi eich hun (10munud). Gwnewch rhywbeth gwahanol.
- Peidiwch adolygu yn rhyw hwyr yn y nos. Nid yw'n gystadleuaeth gyda'ch ffrindiau i weld pwy all aros fyny hwyr i adolygu. Cofiwch bydd yn rhaid i chi ddod i'r ysgol bore wedyn.

Camau ar gyfer llwyddiant wrth adolygu.

Gwirio - ydych chi wedi cael popeth yn gywir? A wnaethoch golli unrhyw beth allan? Ail-wneud cam 4 & 5.

6

Profi - profwch eich hun neu gofynnwch i aelod arall o'r teulu eich profi ar yr wybodaeth yr ydych chi wedi adolygu.

5

Dysgu - ewch dros yr adnoddau adolygu yr ydych chi wedi gwneud a thrio cofio'r ffactorau allweddol. Cofiwch mae pawb yn wahanol ac yn cofio pethau mewn ffyrdd gwahanol.

4

Gwnech eich adnoddau adolygu (cardiau adolygu, mapiau meddwl ac ati.) - ewch trwy eich nodiadau eto a gwneud adnoddau adolygu gan restru'r ffactorau allweddol neu wybodaeth mae'n rhaid i chi ei ddysgu ar gyfer yr arholiad.

3

Darllenwch eich nodiadau - dewiswch un o'r pynciau mae'n rhaid i chi adolygu ar ei gyfer a chanolbwyntio ar yr adran yna o'ch nodiadau. Darllenwch nhw yn ofalus, gan ddewis y ffactorau allweddol neu wybodaeth bwysig gan danlinellu neu oleubwyntio nhw.

2

Paratoi - cyn dechrau, gwnewch yn siwr fod popeth gennych chi. Gan eich bod yn mynd i fod yn gweithio ar eich nodiadau adolygu bydd angen pen, pensil a phren mesur. Gall pen oleubwyntio, papur sgrap a chardiau adolygu hefyd fod yn ddefnyddiol.

1

Technegau - cyn ac yn yr arholiad.

Cyn yr arholiad:

Cofiwch gael noson dda o gwsg y noson cyn eich arholiadau. Mae hyn yn bwysig fel eich bod yn effro ac yn fywiog ar gyfer y diwrnod nesaf.

Mae hefyd yn bwysig eich bod yn cael brecwast da gan fod hyn yn eich helpu i ganolbwyntio. Cofiwch osgoi unrhyw adolygu munud olaf ar ddiwrnod yr arholiad gan nad ydych yn debygol o gofio'r wybodaeth.

Yn yr arholiad:

Darllenwch y cyfarwyddiadau yn ofalus -Darllenwch y cyfarwyddiadau cyn edrych ar y cwestiynau. Darllenwch beth sydd yn rhaid i chi wneud. Mae llawer o bobl yn colli pwyntiau oherwydd nad ydynt wedi deall y cyfarwyddiadau.

Amseru - Rhannwch eich amser rhwng nifer y cwestiynau sydd angen eu hateb. Os oes gennych rai cwestiynau (neu rannau o gwestiynau) sy'n denu mwy o farciau nag eraill rhowch fwy o amser i rhain. Rhowch amser i gynllunio ateb os oes angen.

Darllenwch y cwestiynau yn ofalus. Darllenwch drwy'r papur unwaith ac yna ail-ddarllen pob cwestiwn. Efallai y byddwch yn poeni nad yw'r pwnc yr 'ydych chi wedi'i adolygu wedi dod i fyny, ond cofiwch efallai fod y cwestiwn wedi ei eirio'n wahanol. Fel arall, rydych chi wedi adolygu'r pwnc, ond nid ydych wedi deall y cwestiwn yn llawn.

Ail-ddarllenwch eich atebion- pan fyddwch wedi gorffen yr arholiad ac os oes gennych amser ar ôl. Mae'n bwysig eich bod yn ail-ddarllen eich atebion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi newid unrhyw gangymeriadau. Gallai hyn helpu chi i gael mwy o farciau.

Penderfynwch pa gwestiwn i ateb gyntaf. Mae rhai pobl yn hoffi dechrau gyda phwnc y maent yn gwybod yn dda. Mae'n well gan eraill ateb eu hoff gwestiynau yn olaf, oherwydd wrth gwblhau y rhai gwanaf gyntaf maent yn cael amser wedyn i ymlacio ac i ymhelaethu ar eu syniadau ac ennill mwy o farciau ar eu pynciau cryfaf.

Pwyntiau allweddol i'w cofio:

- ✓ Byddwch yn ymwybodol o pryd mae'ch arholiadau.
- ✓ Cofiwch ddechrau adolygu yn gynnar - ychydig ac yn aml.
- ✓ Cofiwch drefnu eich amser yn dda - gallai amserlen adolygu helpu.
- ✓ Sicrhewch fod yr holl nodiadau / gwaith dosbarth yn gyfoes
- ✓ Sicrhewch fod yr offer cywir gennych ar gyfer pob arholiad.
- ✓ Os ydych chi'n cael trafferth neu'n ansicr o unrhyw beth, mae'n rhaid ichi ofyn i'ch athro cyn gynted â phosib. Mae nhw am i chi wneud yn dda yn eich arholiadau ac maent yma i helpu.
- ✓

Neges gan Mr Andrew (Pennaeth Blwyddyn 7):

Gan mai dyma'r arholiadau cyntaf y byddwch chi'n eistedd yn yr Ysgol Uwchradd mae'n bwysig eich bod yn cymryd pob cyfle i wneud yn dda. Mewn rhai pynciau, bydd yr arholiadau hyn yn eich rhoi mewn setiau ym Mlwyddyn 8.

Defnyddiwch y cyngor a'r arweiniad a gynhwysir yn y llyfryn hwn i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, gan gynnwys adolygu a pharatoi ar gyfer y neuadd arholiad a sut i ymddwyn.

Mae'r gallu gan pob un ohonoch i wneud yn dda felly byddwch yn falch o chi eich hun!



Pob lwc i chi gyd !!!!